Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Cefnogaeth Busnes ERF – Rhagfyr 2021 i Chwefror 2022 ar agor

Mae'r ail o'r tair cronfa i gefnogi busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth – a'u cadwyni cyflenwi – i ymdrin ag effaith cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 bellach ar agor.

Gweinyddir y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) gan Busnes Cymru a bydd yn cefnogi busnesau cymwys sydd â throsiant cyn COVID-19 o dros £85,000, sy'n cyflogi staff ac yn rhagweld gostyngiad o 50% neu fwy yn eu trosiant rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 14. Chwefror 2022. Gall busnesau sy'n derbyn y Gronfa Argyfwng

NDR hefyd wneud cais i'r ERF. Rhaid cyflwyno pob cais i'r ERF cyn canol dydd ar 1 Chwefror 2022. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/cronfa-cadernid-economaidd-covid-19-rhagfyr-2021-chwefror-2022-bellach-ar-agor

Dylai'r gronfa derfynol, y Gronfa Argyfwng Busnes (a weinyddir gan Gyngor Gwynedd), i gefnogi busnesau NAD YDYNT yn derbyn bil Treth Busnes fod ar gael yn ddiweddarach yr wythnos hon. Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd y ffurflen gais yn mynd yn fyw drwy'r Bwletin Cefnogi Busnes a https://twitter.com/BusnesGwynedd.

Mae'r ffurflen gofrestru ar gyfer Cronfa Argyfwng NDR ar gyfer busnesau cymwys sy'n derbyn bil Treth Busnes (Ardrethi Annomestig – NDR) ar gael yn barod, a gellir cael mynediad iddi hi drwy fynd i:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

# CYFLE: Gadewch i ni roi hwb i wario'n lleol tra'n dathlu Dydd Santes Dwynwen #CalonYGymuned

Mae ymgyrch Gyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol drwy gydol y gaeaf yn parhau. Mae pecyn adnoddau yn cynnwys negeseuon ar gyfer y cyfryngau, fidios, GIFs a logo wedi eu creu i annog siopa'n lleol drwy brynu anrhegion arbennig i ddathlu Dydd Santes Dwynwen. Mae'r asedau yma ar gael i chi a gellir eu lawrlwytho wrth fynd i:

https://bit.ly/3KlOEBI

Gallwch hefyd helpu i ledaenu'r neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

- Twitter
  https://bit.ly/twitterprynulleolgwynedd

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleolgwynedd/

Bydd rhagor o ymgyrchoedd Prynu'n Lleol yn rhedeg tan y Pasg. I gymryd rhan, cysylltwch â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

## ARIANNU: Grant Rhwystrau rhag Dechrau

Mae grant Llywodraeth Cymru o hyd at £2,000 ar gael i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i ddechrau busnes. Daw'r grant fel rhan o becyn cymorth a fydd yn cynnwys cyngor a gweminarau un-i-un i fagu hyder mewn arferion busnes a datblygu cynlluniau ar gyfer dechrau busnes. Bydd y grant ar gael tan ddiwedd Mawrth 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-rhag-dechrau

## DIGWYDDIAD: Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi NDA (Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) 21 Gorffennaf 2022

Bydd 9fed digwyddiad cadwyn gyflenwi'r NDA bellach yn cael ei gynnal ar 21 Gorffennaf 2022 yn y Ganolfan Ryngwladol, Telford. Mae'n rhoi cyfle i rwydweithio â mwy na 300 o gwmnïau arddangos a'i nod yw denu busnesau newydd i'r sector datgomisiynu niwclear – gan ganolbwyntio'n benodol ar BBaChau. Am ragor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/33cW0a3

## BREXIT: Defnyddio'r marc UKNI

I ddarganfod a fydd angen i chi ddefnyddio'r marc UKNI newydd a sut i'w ddefnyddio, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/using-the-ukni-marking

## IECHYD & DIOGELWCH: Gwybodaeth diweddaraf gan HSE

Mae HSE yn cefnogi gwasanaeth newydd ar-lein i gyflogwyr, sy'n cynnig cyngor a chanllawiau ar gyfer rheoli iechyd ac anabledd yn y gweithle. Mae gwybodaeth pellach ar:

https://content.govdelivery.com/accounts/UKHSE/bulletins/303dc7d

Mae'r wybodaeth a chanllawiau diweddaraf HSE COVID-19 ar gael ym mwletin 6 Ionawr 2022 HSE ar:

https://content.govdelivery.com/accounts/UKHSE/bulletins/3040a60

## TRETH: Ymatebion CThEM i honiadau anghywir

Mae gwiriwr ffeithiau wedi ei gyhoeddi i ymateb i fythau, camsyniadau a straeon anghywir neu honiadau am CThEM, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/hmrc-responses-to-inaccurate-claims

## DYSGU: Cyrsiau am ddim – MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu)

Prosiect dysgu seiliedig ar waith yw MeTAL (Addysg, Hyfforddiant a Dysgu am Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu), sy'n canolbwyntio ar fodiwlau hyfforddiant technegol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddiwydiant i ffynnu mewn sector sy'n cael ei arwain gan wybodaeth. Am gyfnod

cyfyngedig, hyd at Mawrth 2022, maent yn gallu cynnig rhai o'u cyrsiau ar-lein AM DDIM. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.project-metal.co.uk/cy/cyrsiau

## DIGWYDDIADAU: HWB Menter @ M-SParc

Mae gan HWB Mentewr @M-SParc nifer o weithdai am ddim ar y gweill yn ystod yr wythnosau nesaf, ar-lein ac mewn person. I ddarganfod mwy am Ofod Creu Ffiws, hanfodion cychwyn busnes, amrywiaeth mewn arloesi a mwy, ewch i:

https://www.eventbrite.co.uk/o/enterprise-hub-m-sparc-18672473725

## LLES: Gweminarau RCS

Mae RCS yn parhau i gynnig gweminarau am ddim sy'n cynnig arweiniad arbenigol i gyflogwyr ar sut i gefnogi staff, gan gynnwys awgrymiadau ac offer i weithwyr ynghylch gofalu am eu llesiant meddyliol a chorfforol. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru